# Enw'r Ysgol: Hirael

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu
Disgyblion yn gallu defnyddio sgiliau ymholi ac ymchwilio yn hyderus i ddarganfod gwybodath benodol.
Grwpiau o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn trafod a rhannu syniadau wrth gyd-weithio ar dasg/au penodol
Disgyblion yn gallu mynegi barn yn hyderus a rhoi rhesymau wrth drafod cwestiynau ac ymholi.
Disgyblion yn cael cyfleoedd i weithio ar dasgau medrau meddwl er mwyn ymgyfarwyddo a dysgu geirfa a gwybodaeth newydd.
Grwpiau o ddisgyblion yn cyflwyno gwaith gorffenedig yn hyderus er mwyn ateb y cwestiwn mawr ar ddiwedd yr uned waith/gweithgaredd

**Materion i gael sylw**
Athrawon i sicrhau bod gofynion y FfLlRH wedi eu cynnwys yn y cynllunio
Datblygu ysgrifennu estynedig oddi mewn i'r maes.

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau
Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu am awr yn wythnosol.
Rhaglen Astudio wedi ei rannu'n ofalus fel bod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle i astudio agwedd ar Gristnogaeth,ynghyd ag un o grefyddau eraill y byd ynghyd ag ymdrin a chwestiynau am faterion mawr y byd oddi mewn i bob blwyddyn.
Amrywiaeth o adnoddau dysgu yn cael eu defnyddio- llyfrau cyfeiriol,ymweliadaau i leoliad a gan ymwelwyr,y we,a.y.y.b.
Manteisio ar gefndiroedd ethnig amrywiol disgyblion yr ysgol i ddysgu am gredoau eraill.
Y disgyblion yn ymwybodol o ac yn gallu trafod cyfraniad arweinwyr crefyddol megis Martin Luther, Y Fam Teresa, a.y.y.b yn hyderus.
Y disgyblion yn ymwbodol o elusennau amrywiol a'u cyfraniad amhrisiadwy tuag at wella bywydau eraill.
Y disgyblion yn ymwybodol o gyfraniad yr Esgob William Morgan i grefydd/Cristnogaeth yng Nghymru. Cryfhau ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm Cymreig drwy drafod hanes Mari Jones a'i Beibl a.y.y.b.
Y defnydd cynyddol o fedrau meddwl oddi mewn i'r maes yn hybu ymlyniad a dealltwriaeth y disgyblion yn y gwersi.

**Materion i gael sylw**
**Datblygu Medrau Meddwl a Dysgu Annibynnol ymhellach oddi mewn i'r maes.**
**Sicrhau bod y FfLlRh wedi ei intigreiddio yn fwriadus i'r cynlluniau gwersi/gwaith.**

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Cyfle dyddiol i'r disgyblion addoli ar y cyd
Dosbarthiadau yn eu tro yn gyfrifol am wasanaeth misol.
Gwasanaethau amrywiol o ran cynnwys gan barchu crefyddau a credoau amrywiol yr ysgol.Sylw i foesoldeb,storiau Crefyddol, Dathlaidau'r Flwyddyn/Tymhorau, digwyddiadau cyfredol.
Gwasanaeth wythnosol gan aelodau 'Open The Book' o Gadeirlan Bangor sydd yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymeryd rhan weithredol drwy actio.
Cyfleoedd amrywiol i ddysgu a chanu caneuon o fawl

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Sicrhau cyfle/oedd i ddisgyblion fyfyrio ar ddiwedd cgwasanaeth o addoliad

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Valmai Davies* (Pennaeth)

Dyddiad: 9/10/15